# ATODLEN 8

Rheoliad 45

## DARPARIAETHAU TROSIANNOL (LLADD-DAI)

### Anifeiliaid a ddanfonir ac eithrio mewn cynwysyddion

**1.** Rhaid i weithredwr y busnes sicrhau—

(a) y gosodir ochrau, rheiliau neu fath arall o foddion diogelu ar unrhyw bontydd, rampiau neu bomprennau, i atal anifeiliaid rhag syrthio oddi arnynt; a

(b) bod pob tramwyfa wedi ei hadeiladu mewn ffordd sy'n lleihau i'r eithaf y risg o niwed i anifail, ac wedi ei threfnu gan roi sylw i dueddiadau heidiol yr anifeiliaid sy'n defnyddio'r tramwyfeydd.

### Gwalfeydd ac eithrio gwalfeydd mewn caeau

**2.** Rhaid i weithredwr y busnes sicrhau bod gan unrhyw walfa, ac eithrio gwalfa mewn cae—

(a) llawr sy'n lleihau i'r eithaf y risg o lithro, ac nad yw'n achosi anaf i unrhyw anifail a ddaw i gyffyrddiad ag ef;

(b) os nad awyru naturiol yw'r dull awyru a ddarperir, dull wrth gefn ar gael i gynnal awyru digonol, i'w defnyddio pe bai'r ffynhonnell awyru wreiddiol yn diffygio;

(c) goleuadau digonol (boed sefydlog neu gludadwy) fel y gellir arolygu anifeiliaid yn drwyadl ar unrhyw adeg; a

(d) cyfleusterau yfed digonol o ran nifer a maint i ddyfrhau'r anifeiliaid a gaethiwir ynddi, wedi eu gosod yn barhaol os yw'n ymarferol, a'u hadeiladu a'u lleoli fel eu bod o fewn cyrraedd yn hwylus i'r holl anifeiliaid, yn hawdd i'w llenwi ac yn anodd i'w difwyno.

### Gwalfeydd mewn caeau

**3.** Rhaid i weithredwr y busnes sicrhau bod unrhyw walfa mewn cae—

(a) os nad oes ynddi fannau cysgodi neu gysgod naturiol, ac os defnyddir hi yn ystod amodau tywydd garw, yn cynnwys amddiffynfa briodol i unrhyw anifail sy'n ei defnyddio rhag amodau o'r fath;

(b) yn cynnwys goleuadau digonol (boed sefydlog neu gludadwy) fel y gellir arolygu anifeiliaid yn drwyadl ar unrhyw adeg; ac

(c) yn cynnwys cyfleusterau yfed digonol o ran nifer a maint i ddyfrhau'r anifeiliaid a gaethiwir ynddi, wedi eu gosod yn barhaol os yw'n ymarferol, a'u hadeiladu a'u lleoli fel eu bod o fewn cyrraedd yn hwylus i'r holl anifeiliaid, yn hawdd i'w llenwi ac yn anodd i'w difwyno.

### Llinellau gefynnu

**4.** Yn achos lladd-dy y lleddir dofednod ynddo, rhaid i weithredwr y busnes sicrhau—

(a) bod unrhyw linell gefynnu wedi'i dylunio a'i lleoli mewn ffordd sy'n cadw'r dofednod sy'n hongian ohoni yn glir o unrhyw rwystrau, ac yr ymyrrir cyn lleied ag y bo modd â'r adar;

(b) na chaiff dofednod eu hongian am gyfnod hwy na 3 munud yn achos tyrcwn neu 2 funud ym mhob achos arall, cyn eu stynio; ac

(c) bod hyd cyfan y llinell gefynnu, hyd at y pwynt mynediad i'r tanc sgaldio, o fewn cyrraedd i unrhyw berson yn ddi-oed, fel y gellir rhoi sylw i unrhyw ddofednod pe bai angen.

### Stynio trydanol ac eithrio gyda bath dŵr

**5.** Ni chaiff neb ddefnyddio electrodau i stynio anifail unigol oni fydd y cyfarpar—

(a) yn cynnwys dyfais glywadwy neu weladwy sy'n dangos am faint o amser y defnyddir y cyfarpar ar yr anifail; a

(b) wedi ei gysylltu â dyfais sy'n dangos y foltedd a'r cerrynt o dan lwyth ac wedi ei gosod lle y gall y gweithredwr ei gweld yn eglur.

### Stynio trydanol gan ddefnyddio bath dŵr

**6.** Ni chaiff neb ddefnyddio styniwr bath dŵr oni bai—

(a) bod yr electrod sydd o dan wyneb y dŵr yn ymestyn am hyd cyfan y bath dŵr; a

(b) nad yw'r styniwr bath dŵr yn gorlifo yn y fynedfa, neu, os na ellir osgoi gorlifiad, y cymerir camau i sicrhau nad oes unrhyw ddofednod yn cael sioc drydanol cyn eu stynio.

### Dod i gysylltiad â nwy

**7.** Ni chaiff neb stynio moch na dofednod drwy ddod â'r moch neu'r dofednod i gysylltiad â nwy onid yw'r styniwr nwy a ddarperir at y diben hwnnw, gan gynnwys unrhyw gyfarpar a ddefnyddir i gludo'r moch neu'r dofednod drwy'r nwy, wedi—

(a) ei ddylunio, ei adeiladau a'i gynnal er mwyn osgoi unrhyw anaf i fochyn neu aderyn; a

(b) yn cynnwys dyfeisiau ar gyfer—

(i) mesur ac arddangos yn ddi-dor y crynodiad nwyon, fel y bo'n briodol, yn y styniwr nwy (yn unol â Thabl 3 o Bennod I o Atodiad I); a

(ii) rhoi signalau rhybuddio eglur, gweledol a chlywedol, os yw'r crynodiad nwyon yn gostwng islaw'r lefel sy'n ofynnol (yn unol â Thabl 3 o Bennod I o Atodiad I).